# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Tachwedd 2019

Amser: 08.30 - 08.45

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth a'i gyflwyno i'r Aelodau

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

- Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Bydd y bleidlais ar Gyfnod 4 y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn digwydd yn syth ar ôl yr eitem.

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar bob eitem arall cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Rheolwyr Busnes gais David Melding am ddadl ar y Cynnig i ddirymu Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019, a chytunwyd i drefnu'r ddadl ar gyfer 11 Rhagfyr 2019.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2019**

- Cynnig i ddirymu Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019 (15 munud)

**Dydd Mercher 8 Ionawr 2020**

- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad: Diweddariad ar waith y Pwyllgor (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Ar iechyd meddwl yn nalfa'r heddlu (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Buddion yng Nghymru: Opsiynau ar gyfer cyflawni'n well (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud) – *Gohiriwyd o 20 Tachwedd 2019*

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Amserlen ar gyfer y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Trafododd y Rheolwyr Busnes ymateb y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i'r amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil, a'r cyfaddawd arfaethedig a ddaeth

i'r amlwg ar ôl y cyfarfod yr wythnos diwethaf ar gyfer ymestyn Cyfnod 1 trwy gael Cyfnod 2 byrrach.

Mynegodd Darren Millar, Rhun ap Iorwerth a Caroline Jones gefnogaeth i safbwynt y pwyllgor, gan bwysleisio pwysigrwydd tystiolaeth dda ar gyfer deddfwriaeth dda. Fe wnaethant nodi y dylid cael isafswm o 12 wythnos ar gyfer Cyfnod 1, yn hytrach na chyfnod safonol neu uchaf, yn enwedig ar gyfer Bil mor sylweddol.

Gwrthwynebodd y Trefnydd unrhyw newid i'r amserlen arfaethedig, gan bwysleisio bod yr amserlen eisoes yn dynn ar gyfer ei gweithredu a bod angen ffenestr lawn ar gyfer Cyfnod 2 er mwyn caniatáu ar gyfer cyflwyno gwelliannau, gan gynnwys amser i weithredu argymhellion disgwyliedig y pwyllgor.

Gan fod mwyafrif ar gyfer amserlen arfaethedig y llywodraeth o dan system bleidleisio wedi'i phwysoli'r Pwyllgor Busnes, cytunwyd ar yr amserlen a gynigiwyd gan y llywodraeth. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ysgrifennu at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i'w hysbysu o'u barn. Cytunodd y Pwyllgor i edrych ar amserlennu gwaith craffu ar ddeddfwriaeth fel rhan o'i baratoadau ar gyfer y Chweched Cynulliad.

## 5 Busnes y Cynulliad

### 5.1 Trefniadau Cyflwyno

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes y trefniadau ar gyfer cyflwyno busnes y cyfarfod llawn a gwelliannau yn ystod cyfnod toriad y Nadolig a chytunwyd ar y trefniadau ar gyfer cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad.